

# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15  
1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 18fed Gorffennaf, 2023 at 10.00 am**

## Councillors Present

County Councillor John Crook, (Chairman)  
County Councillor Jackie Strong, (Vice  
Chairman)

County Councillors: Fay Bromfield,  
Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell,  
Maria Stevens, and Sue Riley

Also in attendance County Councillors:  
Ian Chandler, Cabinet Member for Social Care,  
Safeguarding and Accessible Health Services,  
Frances Taylor and Rachael Buckler

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a  
Llywodraethiant  
Clare Morgan, Service Manager, All Age Disability  
and Mental Health  
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant  
Hannah Carpanini, Team Manager Cldt, Adult  
Services  
Nicholas Keyse, Rheolwr Datblygu Stadau

**APOLOGIES:** none

### 1. Ethol Cadeirydd.

Cafodd y Cynghorydd Crook ei enwebu fel Cadeirydd y Cynghorydd Powell, eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Strong. Etholwyd y Cynghorydd Crook.

### 2. Penodi Is-gadeirydd.

Cafodd y Cynghorydd Strong ei enwebu fel Is-gadeirydd gan y Cynghorydd Stevens, eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Riley. Cafodd y Cynghorydd Strong ei benodi.

### 3. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

### 4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Croesawodd y Cadeirydd y cyhoedd i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Pobl, a fyddai'n ystyried canlyniad yr Adolygiad ar Fy Niwrnod, Fy Mywyd a'r adborth o'r broses ymgynghori. Eglurodd mai rôl y pwyllgor craffu oedd cynnig barn i'r cabinet a gwneud unrhyw argymhellion, y gall y Cabinet eu derbyn neu eu gwrthod fel rhan o'u penderfyniadau yn y dyfodol, ond bod yr Aelodau'n awyddus i glywed gan y cyhoedd ac yn enwedig defnyddwyr gwasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfraniad ysgrifenedig wedi'i dderbyn cyn y cyfarfod gan Mr David Abbott, yr oedd yr Aelodau wedi'i weld. Amlygodd hefyd fod deiseb gyda llawer o lofnodion wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor a bod yr Aelodau'n nodi cryfder teimlad y cyhoedd ar y mater o'u blaenau.

Roedd presenoldeb cyhoeddus mawr yn y cyfarfod craffu a siaradodd 13 aelod o'r cyhoedd am oddeutu tair munud yr un, gan dynnu sylw at yr angen am wasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu (ar wahân i'r rhai sy'n defnyddio Fy Niwrnod, Fy Mywyd), yn benodol ar y canlynol:

- Yr angen am ganolfan lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn teimlo eu bod yn perthyn, heb deimlo'n wahanol, gan eu helpu i fagu hyder a chynnig ymdeimlad o bwrpas ac ansawdd bywyd iddynt.
- Yr angen am ganolfan sydd wedi'i lleoli'n ganolog yn y gymuned, nid ar yr ymylon.
- Toiledau hygyrch a chyfleusterau newid, gan gynnwys newid gwelyau.
- Lle y gallant ymgymryd â gweithgareddau lles mewnol.
- Cegin a gardd.
- Ystafell synhwyraidd
- Ardaloedd cymunedol cytbwys a mannau tawel.

Roedd teimlad cryf ymhlith aelodau'r cyhoedd mai Canolfan Ddydd Tudor Street oedd yr unig adeilad a allai ddarparu'r cyfleusterau cywir, a soniodd llawer mai dyna oedd eu hoff ddewis. Dywedodd un aelod o'r cyhoedd mai "nid mater lleol yn unig oedd hwn, ond mater o ddiddordeb i'r cyhoedd" a galwodd ar i'r cyngor weithredu gyda "thosturi a rhagolwg" ac "ystyried gwir gost y penderfyniad, nid yn unig mewn termau ariannol, ond o ran lles dinasyddion a chydlyniant cymunedol".

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a siarad o dan y Fforwm Agored Cyhoeddus i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'u trafodaethau.

#### **5. Canlyniad yr Adolygiad i Fy Niwrnod, Fy Mywyd. Craffu canfyddiadau'r adolygiad, yr adborth o'r broses ymgynghori, gan wneud argymhellion i'r Cabinet.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Ian Chandler a Jane Rodgers yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Nicholas Keyse a Clare Morgan.

#### **Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor**

- Roedd nifer o Aelodau yn anfodlon ar y broses sgorio, a'r sgoriau unigol a ddyrannwyd i'r adeiladau ac yn rhoi enghreifftiau o'r hyn yr oeddent yn teimlo oedd diffyg cysondeb wrth gymhwyso sgorau. Gofynnodd yr Aelod Cabinet a oedd yr adeiladau cywir ar y rhestr fer. Nid oedd yr Aelodau'n anghytuno ac nid oedd unrhyw farn y dylai unrhyw adeiladau eraill ymddangos ar y rhestr fer. Cynigiodd yr Aelod Cabinet gynnal sesiwn gydag aelodau i egluro'r meini prawf, y gellir eu trefnu yn ôl disgrisiwn y pwyllgor. Pwysleisiodd hefyd y byddai pob

adeilad yn cael ei ystyried eto yn dilyn y sifft cychwynnol hwn gyda chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth cyfredol a darpar ddefnyddwyr.

- Mae'r Aelodau o'r farn y gallai'r Aseiad Effaith Integredig fod wedi bod yn gryfach o ran y categori oedran, ond hefyd o ran rhyw (nid rhywedd), i gydnabod y bydd llawer o ofalwyr yn fenywod ac felly, byddai effeithiau canlyniadol ar eu gallu i weithio a'u lles. Amlygodd yr Aelodau y gallai fod gan bobl, sydd ag anableddau dysgu, broblemau iechyd cyd-forbidrwydd eraill hefyd, y dylid eu cydnabod. Teimlai'r aelodau fod angen yr aseiad i adlewyrchu anghenion gofalwyr yn gywir, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth.
- Nododd y Pwyllgor fod meini prawf cymhwysedd y gwasanaeth wedi newid, sy'n awgrymu niferoedd is o ddefnyddwyr gwasanaeth nag yr oedd y Pwyllgor yn ei ddisgwyl. Cododd hyn bryder ynghylch a yw pobl yn cael eu cefnogi'n ddigonol.
- Awgrymodd sawl Aelod mai Canolfan Ddydd Tudor Street oedd eu dewis a ffefrir o ran lleoliad ar gyfer canolfan yn Y Fenni. Cefnogodd yr aelodau'r angen am gegin a gardd i alluogi pobl i barhau â'r gweithgareddau hynny y maent wir yn eu mwynhau mewn unrhyw adeiladau yn y dyfodol.
- Clywodd yr aelodau fod gofalwyr di-dâl hefyd yn defnyddio Canolfan Ddydd Tudor Street fel lle i gael rhywfaint o seibiant. Tynnwyd sylw hefyd at gludiant i wasanaethau, gan adlewyrchu bod rhai gofalwyr wedi canfod bod yr amser a gymerir i gludo'r rhai sy'n derbyn gofal i wasanaethau, yn golygu mai dim ond cyfnod byr o seibiant oedd ar gael iddynt, cyn gorfod eu casglu.
- Roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn aelodau agored i niwed o'r cyhoedd, y dylid eu cefnogi ac na ddylent orfod brwydro i gael gwasanaethau.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hamynedd drwy gydol y broses a'r cyhoedd am eu presenoldeb a'u cyfraniad gwerthfawr. Diolchodd hefyd i Aelodau'r Cabinet a Swyddogion am eu mewnbwn a daeth i'r casgliad:

- Cafwyd cefnogaeth eang gan y pwyllgor ar gyfer argymhellion yr adolygiad ac awydd cryf i weld y gwaith yn mynd rhagddo ar gyflymder.
- Roedd yr Aelod Cabinet wedi dweud y byddai'n cynnal gweithdai defnyddwyr gwasanaeth dros yr haf i ofyn am eu dewisiadau a chasglu rhagor o wybodaeth am y tri adeilad ar y rhestr fer, ac fe gefnogodd y Pwyllgor hynny. Roedd yr

Aelodau'n gallu nodi unrhyw adeiladau addas eraill yr oeddent yn teimlo oedd yn addas i'w hystyried a rhoi gwybod i'r Aelod Cabinet.

- Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Aelod Cabinet ystyried y pwyntiau a ddarperir yn y crynodeb hwn wrth wneud penderfyniadau pellach ar Wasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd.
- Byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno crynodeb ffurfiol i'r Cabinet i adlewyrchu barn y Pwyllgor, ynghyd â rhai sylwadau ychwanegol er mwyn i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

#### **6. Blaenraglen Waith Craffu Pobl**

Nodwyd y flaenraglen waith.

#### **7. Rhaqlen Waith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd y flaenraglen waith.

#### **8. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023.**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfod.

#### **9. Cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 19 Gorffennaf 2023 am 10.00am.**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod y diwrnod canlynol, 19<sup>eg</sup> Gorffennaf 2023.

The meeting ended at **1.09 pm**